

## **CYLCHLYTHYR WYTHNOSOL YSGOL GLANRAFON'S WEEKLY NEWSLETTER.**

**WYTHNOS YN DIWEDDU/WEEK ENDING: 06.11.20**

Gobeithio i chi gael cyfle i ymlacio dros y gwyliau hanner tymor – er ein bod ynghanol y cloi i lawr, heb allu mynd i unman! Mae'n anodd credu bod yr wythnos gyntaf o'r hanner tymor newydd eisoes wedi dod i ben, ac yn sicr, bydd yr hanner tymor yma'n arwain i fyny at y Nadolig, yn bur wahanol i'r arferol!

*It is hoped that everyone had an opportunity to rest over the half term holiday – although we were in the middle of a lockdown, and not able to go anywhere! It's difficult to believe that we're at the end of the first week of the new half term already, and without a doubt, this half term leading up to Christmas, will be quite different to what it usually is!*

### **ETHOL 2 RIANT LYWODRAETHWR – ELECT 2 PARENT REPRESENTATIVES.**

Rydych wedi derbyn y wybodaeth a'r ddolen angenrheidiol mewn e bost erbyn hyn. Fe'ch hatgoffir mai'r dyddiad a'r amser cau ar gyfer cyflwyno eich pleidleisiau yw **hanner dydd, ddydd Mercher, Tachwedd 11eg.**

*You have received the information and the required link in an e mail by now. You are reminded that the closing date and time to present your votes is **mid day, Wednesday, November 11<sup>th</sup>.***

### **ADDYSG UWCHRADD – SECONDARY EDUCATION.**

Atgoffir rhieni disgylion Blwyddyn 6 mai heddiw yw'r diwrnod cau ar gyfer cyflwyno cais ar gyfer addysg uwchradd i'ch plant ar gyfer Medi 2021. Os nad ypsych eisoes wedi gwneud, mae angen llenwi y ffurflen gais briodol ar wefan Sir y Fflint **fel mater o frys.**

*Year 6 parents are reminded that today is the closing date for presenting the secondary education application for your children in preparation for September 2021. If you have not already done so, an appropriate application form on the Flintshire website needs to be filled in as a **matter of urgency.***

### **DOSBARTH DERBYN – RECEPTION – MEDI/SEPTEMBER 2021**

Atgoffir ein rhieni Meithrin mai'r dyddiad cau ar gyfer cofrestru'r plant i ddod i'r dosbarth Derbyn ym mis Medi 2021 yw **dydd Gwener, Tachwedd 20fed.** Rhaid gwneud hyn ar wefan Sir y Fflint hefyd.

*Our Nursery parents are reminded that the closing date for registering the children into the Reception class in September 2021 is **Friday, November 20<sup>th</sup>.** This also needs to be done on the Flintshire website.*

## **DILLAD ADDYSG GORFFOROL – PHYSICAL EDUCATION CLOTHING.**

Parhawn i sylweddoli mor bwysig yw hi fod yr holl ddisgyblion yn derbyn sesiynau estynedig o Addysg Gorfforol tu allan yn ystod y cyfnod anodd hwn. Gan fod y tywydd bellach yn oeri, ac yn debygol o waethygwr wrth i'r amser fynd yn ei flaen, gofynnir i chi sicrhau fod y plant i gyd yn gwisgo dillad addas a chynnes ar ddiwrnodau eu sesiynau Addysg Gorfforol os gwelwch yn dda. Yn wir, gallant wisgo cap, menyg a chôt os oes raid, er mwyn gwneud yn siwr eu bod yn cael cyfle i wneud gweithgareddau corfforol.

*We continue to realise that it is very important that all the pupils have extended sessions of physical activity during these difficult times. As the weather is now getting colder, and likely to deteriorate as time goes by, you are asked to ensure that the children wear warm and suitable clothing on those days where they have physical education sessions please. Indeed they can wear a cap, gloves and coat if needs be, in order to ensure that physical activities can take place.*

## **BRECWAST AM DDIM – FREE BREAKFAST**

Ni ellir gor-bwysleisio'r ffaith ei bod yn HANFODOL i unrhyw rieni sydd wedi cofrestru eu plant ar gyfer y Clwb Brecwast, ac nad ydynt yn bwriadu ei ddefnyddio, er tegwch i rieni eraill, yn rhoi gwybod i ni AR UNWAITH, fel y gellir rhyddhau lleoedd gwag ar gyfer y rheini na lwyddodd i gael lle.

*It can not be over emphasised how ESSENTIAL it is that any parents who have booked their children into the Breakfast Club, but do not intend to use it, inform us IMMEDIATELY, so that those spaces can be released for the parents who were not able to reserve a place for their children.*

## **PLANT MEWN ANGEN – CHILDREN IN NEED.**

Mi fydd yr achlysur arbennig hwn **ddydd Gwener nesaf, Tachwedd 13eg.** a bwriadwn godi arian at yr ymgrych arbennig hon eto eleni. Er mwyn gwneud hynny, gall y plant ddod i'r ysgol mewn pyjamas (a gŵn gwisgo os y dymunant) a thalu £1 am gael gwneud hynny. Ni fydd yn bosib iddynt ddod â theganau meddal efo nhw o adref y tro yma oherwydd cyfyngder y Coronafeirws. Gall unrhyw un nad yw'n awyddus i ddod mewn pyjamas, wisgo eu dillad eu hunain a thalu £1 am gael gwneud hynny hefyd.

*This event will take place **next Friday, November 13<sup>th</sup>.**, and we intend to raise money for the appeal again this year. The children can come to school in their pyjamas (and dressing gown if they wish) and pay £1 for doing so. It will not be possible for them to bring their soft toys with them this time due to the Coronavirus restrictions. Anyone who does not wish to wear a pyjamas can come to school in their own clothes and pay £1 for doing this also.*

**Mwynhewch y penwythnos a chadwch yn ddiogel! –**

***Enjoy the week end and keep safe!***

